

Cynhadledd ExChange mis Mawrth 2017
Beth sy'n cael ei gyfrif fel 'Lles'? Deall Canlyniadau Gofal Cymdeithasol
Crynodebau'r siaradwyr

Cathryn Thomas, Arweinydd Rhaglenni a Gwella Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Datblygu gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

Cynyddu nifer y sefydliadau ac unigolion yw'r sylfaen ar gyfer gwella gofal cymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun cyflwyno gwasanaethau ac ymarfer sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael cefnogaeth ar gyfer ymarfer sy'n seiliedig ar ganlyniadau fel un o'i phrif raglenni gwaith yn ystod y 3 blynedd diwethaf, a bydd y gwaith yn parhau wrth i ni symud ymlaen i Ofal Cymdeithasol Cymru o 1 Ebrill.

Mae rhaglenni cyfnewid dysgu fel y rhain yn rhoi'r cyfle i ni fireinio a datblygu ein dealltwriaeth o ystyr canlyniadau gan fod sawl dehongliad ar hyn o bryd. Bydd canlyniadau yn rhan o'r agenda ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru (sy'n arwain gwaith gwella ar draws y sector) a bydd y rhain yn effeithio ar bob un o'r prif feysydd gwaith. Fodd bynnag, dim ond drwy gydweithio â phob un o'n prif bartneriaid a rhanddeiliaid yn erbyn cyfres o egwyddorion y cytunir arnynt y gallwn lwyddo.

Maria Selby, Rheolwr tîm plant Cwrt Sart yng Nghastell-nedd Port Talbot
Ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

Yn wreiddiol cynhaliodd Tîm Cwrt Sart gynllun peilot ar gyfer ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac erbyn hyn cyflwynwyd y model i bob tîm yng ngwasanaethau plant Castell-nedd Port Talbot. Mae ymyriadau canlyniadau yn canolbwyntio ar newid o broses a gefnogir gan sgysiau â defnyddwyr gwasanaethau, i sgysiau sy'n grymuso ac sydd wedi eu cefnogi gan brosesau. Mae'n canolbwyntio ar ddatrys problemau defnyddwyr gwasanaeth, a chydweithio i sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Mae'r ymarferydd yn gweithio ar sgiliau i alluogi teuluoedd i feddwl am dargedau sy'n gyraeddadwy ac yn gynaliadwy. Y sgiliau craidd ar gyfer sicrhau ymateb gonest gan deuluoedd yw gofyn cwestiynau penagored, cadarnhau, gwrando'n fyfyrionol a chrynhai. Mae'r ymyriad canlyniadau system sgorio i ddisgrifio'r ymddygiad problemus, 10 yw'r sefyllfa orau posibl, a 0 yw'r sefyllfa ar ei gwaethaf. Mae canlyniadau hefyd yn canolbwyntio ar gryfderau teuluoedd, risgiau sy'n flaenoriaeth a chanlyniadau digonol. Mae'r fframwaith yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ynghyd â gweledigaeth Castell-nedd Port Talbot: Dyfodol mwy Diogel a Disglair, Canlyniadau Gwell ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Dr Alisha Davies, Pennaeth Ymchwil a Datblygu, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod (ACEs) yng Nghymru: ymyrru ac atal yn gynnar

Mae fwyfwy o dystiolaeth fyd-eang yn dangos yr effeithiau andwyol niweidiol y gall Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod (ACEs) gael ar iechyd pobl yn ystod eu bywydau. Mae'r profiadau hyn yn cynnwys cael eich cam-drin yn blentyn a chael eich magu mewn amgylchedd teuluol â phroblemau. Diben yr astudiaeth hon oedd mesur pa mor gyffredin yw'r profiadau hyn a'u cysylltiad ag iechyd oedolion yng Nghymru. Bydd hyn yn cyfrannu at lunio polisi ac ymarfer o ran ymyrryd ac atal yn gynnar.

Cynhaliwyd arolwg croestoriadol wyneb-i-wyneb o oedolion (rhwng 18-69 oed) yng Nghymru yn 2015. Defnyddiwyd sampl o 2028 o unigolion (50.2% benyw; 49.8% gwryw) ac roedd gofyn iddynt lenwi holiadur a ddilyswyd ar Brofiadau Andwyol yn ystod Plentyndod a chwestiynau am eu hymddygiad iechyd ar hyn o bryd, canlyniadau iechyd a gofal iechyd. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio techneg Cyfweiliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadurol. Cyfrifwyd pa mor gyffredin yw Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod a'u heffaith ar iechyd a lles y boblogaeth drwy gydol eu hoes.

Am bob 100 oedolyn yng Nghymru, roedd 47 ohonynt wedi dioddef profiadau o'r fath o leiaf unwaith yn ystod eu plentyndod. Roedd 14 wedi dioddef 4 neu fwy o weithiau. Ar ôl cywiro demograffeg gymdeithasol, nodwyd bod Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod yn cael effaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd, lles meddyliol isel, defnyddio rhagor o wasanaethau gofal iechyd a datblygu clefydau cronig yn gynnar. Mae tystiolaeth ymchwil am y maes hwn yn llywio agenda ar y cyd i hyrwyddo cyrff i gweithio mewn partneriaeth er mwyn atal hyn ar lefel lleol. Mae atal Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod a helpu'r rhai a allai ddioddef profiadau o'r fath i'w wrthsefyll, yn hanfodol er mwyn gwella iechyd oedolion y dyfodol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyfreithloni gweithgaredd ar y cyd er mwyn gweithio tuag at atal Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod ar lefel sylfaenol.

Dr Rachel Dodge
Beth yw lles a sut allwn ni ei wella?

Mae lles yn faes gwyddonol newydd. Fodd bynnag, mae nifer o wahanol safbwyntiau ynglŷn â sut i'w ddiffinio fel cysyniad, p'un a oes modd ei fesur, a'r posibilrwydd o'i wella ar lefel unigol. Bydd y gweithdy'n cyflwyno'r rhai sy'n bresennol i ddiffiniad newydd o les, ac yn cyflwyno gwaith ymchwil a ymchwiliodd i effeithiolrwydd rhaglen ymyrraeth fugeiliol a ddyluniwyd i wella lles myfyrwyr Addysg Bellach. Fel rhan o'r astudiaeth dulliau cymysg, dewiswyd sampl o (N = 244) o fyfyrwyr addysg bellach i gymryd rhan mewn rhaglen ymyrraeth fugeiliol gan eu tiwtoriaid dros gyfnod o ddeg wythnos, gyda'r nod o amlygu'r strategaethau y gallent eu defnyddio i wella eu gallu i wynebu heriau. Defnyddiwyd yr Arolwg o Les Myfyrwyr Addysg Bellach i fesur canfyddiad y myfyrwyr o'u heriau mewn deg o feysydd bywyd a'u gallu i'w hwynebu, ochr yn ochr ag effaith yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu, a lefel y strategaethau yr oeddent yn eu defnyddio i fynd i'r afael â'r heriau. Cafodd hyn ei fesur cyn ac ar ôl yr ymyrraeth. Yng nghanlyniadau'r ymchwil gwelwyd bod y myfyrwyr yn teimlo eu bod mewn sefyllfa well o lawer ar ôl yr ymyrraeth i allu wynebu heriau. Bydd y gweithdy hwn yn gyfle i ymarferwyr drafod ffyrdd posibl o addasu'r ymchwil hon ar gyfer cyd-destunau gofal cymdeithasol penodol.

Yr Athro Donald Forrester, Athro Gwaith Cymdeithasol Plant a'r Teulu, a chyfarwyddwr CASCADE, Prifysgol Caerdydd

Trafod Canlyniadau: Ymarfer Gwaith Cymdeithasol fel Deialog Pwrpasol

Mae gwaith cymdeithasol wedi cael trafferth datblygu dulliau credadwy o fesur canlyniadau. Mae hyn wedi cyfrannu at rai o'r prif broblemau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd ym meysydd polisi, ymarfer ac ymchwil. Yn y cyflwyniad hwn, mae'r Athro Forrester yn dadlau y gallai fod yn ddefnyddiol deall canlyniadau fel rhywbeth a gynhyrchir drwy ddeialog pwrpasol, ac y gallai'r broses drafod fod cyn bwysiced â'r 'canlyniadau'. Mae ei gyflwyniad yn cynnwys enghreifftiau o ymchwil ddiweddar o sut mae gweithwyr cymdeithasol yn mynd ati i drafod gyda rhieni mewn gwaith amddiffyn plant.

Emma Miller, Prifysgol Ystrad Clud

Creu ystyr a mesur: A all canlyniadau personol ein helpu i wneud y ddau?

Cynhaliwyd adolygiad diweddar o arferion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ddiweddar mewn sawl gwlad, gan gynnwys Cymru a'r Alban, a chanfuwyd tystiolaeth gyson o fuddiannau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, staff a sefydliadau. Gall y sgrysiâu da a gysylltir â chanlyniadau personol helpu o ran hunaniaeth, gwella ac ansawdd bywyd. Fodd bynnag, mae rhwystrau cyffredin sy'n atal y canlyniadau sy'n bwysig i bobl rhag cael eu hystyried yn bwysig mewn systemau ehangach. Awgryma'r dystiolaeth mai mesur canlyniadau yw'r mater y mae angen y mwyaf o ymdrech yn ei gylch. Byd y cyflwyniad hwn yn ystyried i ba raddau y gellir mesur canlyniadau, a sut gallwn sicrhau nad yw'r nod o greu ystyr yn cael ei golli wrth i ni ganolbwyntio ar rifau.



ExChange

Building Better Social Care
in Wales

Adeiladu Gofal Cymdeithasol
Gwell yng Nghymru